

# Y Comisiwn Etholiadol

## Briff: Bil Etholiadau Llywodraeth y DU – yr effaith ar etholiadau yng Nghymru

### Medi 2021

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio barn ar y cynigion a nodwyd ym Mil Etholiadau Llywodraeth y DU. Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb. Un rhan allweddol o'n rôl yw rhoi cyngor i'r llywodraethau a'r seneddau ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag etholiadau a rheoleiddio ymgyrchwyr.

Mae'r briff hwn yn ystyried cymalau'r Bil yr ydym ar ddeall fod Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd ar eu cyfer. Mae hefyd yn tynnu sylw at ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag etholiadau Senedd y DU ac a fyddai, felly, yn effeithio ar bleidleiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddiaethau etholiadol yng Nghymru, yn cynnwys drwy greu gwahaniaeth canlyniadol yn y rheolau ar gyfer etholiadau gwahanol yng Nghymru. Mae'n adlewyrchu ein dealltwriaeth bresennol o'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig a fydd yn dilyn. Byddwn yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth i'r broses seneddol fynd rhagddi.

## Mae darpariaethau'r bil yn uniongyrchol berthnasol i etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r adran hon o'r briff yn sôn am y rhannau o'r Bil Etholiadol y mae Llywodraeth y DU wedi cynnig y dylent fod yn gymwys i'r holl fframwaith etholiadau, yn cynnwys etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae wedi gofyn i'r Senedd gydsynio i rai o'r newidiadau hyn lle mae gan y Senedd gymhwysedd dros y rhan berthnasol o'r gyfraith.

### Rheoleiddio a chofrestru ymgyrchwyr

#### Argraffnodau digidol

Mae ymgyrchu digidol yn cyfrif am gyfran gynyddol fawr o wariant a gofnodwyd gan ymgyrchwyr ar ôl etholiadau. Yn dilyn etholiad cyffredinol y DU yn 2019 ac Etholiadau Senedd Ewrop, nododd pleidiau gwleidyddol fod gwariant ar hysbysebu digidol yn cynrychioli 53% o gyfanswm eu gwariant ar hysbysebu. Dylai ffurflenni gwariant pleidiau ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021 gael eu cyflwyno ym mis Awst a mis Tachwedd 2021 (yn dibynnu ar lefel y gwariant) a byddwn yn cyhoeddi'r data hyn maes o law.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi bod yn argymhell y dylid cyflwyno rheolau ar argraffnodau digidol ers peth amser, gan y byddai'n gwella tryloywder a hyder pleidleiswyr. Roedd hefyd yn argymhelliad yn ein [hadroddiad diweddar ar etholiadau 2021 yng Nghymru](#).

Cadarnhaodd ein hymchwil ar ôl yr etholiad fod pobl yn parhau i werthfawrogi tryloywder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am weithgarwch ymgyrchu gwleidyddol ar-lein mewn etholiadau gyda mwyafrif (69%) o'r bobl yn cytuno ei bod yn bwysig iddynt wybod pwy sydd wedi llunio'r wybodaeth wleidyddol a welant ar-lein, a thri o bob pum person yn cytuno (59%) y byddent yn ymddiried mwy mewn deunydd ymgyrchu digidol pe baent yn gwybod pwy â'i luniodd. Er mwyn sicrhau hyder pleidleiswyr mewn rheoleiddio ymgyrchoedd digidol, dylai'r gyfraith roi darpariaethau i gamau cyflym gael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddeunydd ymgyrchu nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion newydd ar gyfer argraffnodau. Byddai'r Bil yn creu dyletswydd newydd i ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu digidol roi gwybodaeth i'r Comisiwn a'r heddlu am bwy sydd wedi cyflenwi'r deunydd a thalu amdano, a fyddai'n ein helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Mae hefyd yn nodi dyletswyddau i ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu digidol, gan gynnwys dyletswydd i dynnu deunydd heb argraffnod unwaith y bydd llys wedi rhoi collfarn neu pan fydd y Comisiwn wedi rhoi cosb i ymgyrchydd.

### **Ystyriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru**

- P'un a fydd y Senedd yn penderfynu cydsynio i'r cynigion yn y Bil Etholiadau neu'n cyflwyno deddfwriaeth ar wahân, rydym yn argymhell y dylai rheolau ar argraffnodau digidol fod yn ofyniad cyfreithiol ym mhob etholiad ledled y DU.
- Rydym ar ddeall bod Llywodraeth y DU yn ogystal â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wrthi'n ystyried cwestiynau cymhwysedd mewn perthynas â'r cynigion ynghylch argraffnodau digidol. Os penderfynir bod y cynigion ynghylch argraffnodau digidol ym Mil Llywodraeth y DU yn fater a gedwir yn ôl, yna rydym ar ddeall y byddai'r darpariaethau'n gymwys i bob etholiad a gynhelir yng Nghymru a'r Alban pe baent yn cael eu pasio.
- Mae'r Comisiwn ar ddeall o'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod polisi argraffnodau yn fater datganoledig ac nad yw'n bwriadu argymhell i'r Senedd roi cydsyniad i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU sy'n gymwys i etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Os felly, byddem yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfraith argraffnodau digidol cyn gynted â phosibl.
- Os nad yw cynigion y Bil Etholiadau yn berthnasol i etholiadau'r Senedd nac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, byddai angen i Lywodraeth Cymru benderfynu ar y ffordd orau o gyflwyno cyfraith argraffnodau digidol yng Nghymru. Dylai ystyried y cynigion a wneir gan Lywodraeth y DU ar gyfraith argraffnodau digidol newydd, ynghyd â'r rheolau sydd eisoes yn weithredol yn yr Alban.
- Gellid gwella tryloywder i bleidleiswyr pe bai'r gofynion o ran argraffnodau yn y dyfodol yng Nghymru yn cwmpasu pob math o ddeunydd digidol gan ymgyrchwyr, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u cofrestru â ni, hyd yn oed os nad oeddent wedi talu i'w hyrwyddo. O dan reolau arfaethedig Llywodraeth y DU, byddai ond angen gosod argraffnodau ar ddeunydd digidol gan ymgyrchwyr nad ydynt wedi'u cofrestru os oedd yn hysbyseb y talwyd amdani. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried

y gwahaniaeth mewn cwmpas rhwng y gyfundrefn bresennol ar gyfer etholiadau datganoledig yn yr Alban a'r hyn a gynigir ym Mil Llywodraeth y DU. Credwn fod y naill ddull gweithredu a'r llall yn cynnig manteision o ran tryloywder – mae nod Llywodraeth y DU i sicrhau bod rheolau ar argraffnodau yn gymwys yn gyffredinol i ddeunydd gwleidyddol digidol yn hytrach na dim ond i ddeunydd etholiadol, yn golygu y bydd yn rhaid i amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau i hyrwyddo pleidiau neu ymgeiswyr gynnwys argraffnod. Ond mae'r dull sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnwys argraffnodau ar bob darn o ddeunydd etholiadol digidol gan ymgyrchwyr anghofrestredig yn rheolau'r Alban yn golygu mwy o dryloywder na'r hyn y byddai cynigion Llywodraeth y DU yn ei gyflwyno, ac mae'n fwy cyson â'r rheolau ar argraffnodau ar gyfer deunyddiau etholiadol wedi'u hargraffu.

- Bydd y cynigion ynghylch argraffnodau digidol yn y Bil Etholiadau yn cynnwys darpariaethau i dynnu deunydd heb argraffnod i lawr, ond mae'n annhebygol y cânt eu rhoi ar waith yn gyflym. Dim ond ar ôl i lys neu'r Comisiwn benderfynu'n ffurfiol ar drosedd y gellid eu rhoi ar waith.
- Pe bai'r Senedd a Senedd y DU yn pasio deddfwriaeth ar gyfer rheolau ar argraffnodau digidol, bydd yn bwysig osgoi'r risg bod cyfundrefnau deddfwriaethol ar wahân yn gymwys i'r un drosedd. Gallai hynny achosi dryswch i ymgyrchwyr, rheoleiddwyr ac erlynwyr. Er enghraifft, yn dibynnu ar gwmpas unrhyw gynigion y bydd Llywodraeth Cymru yn eu datblygu yn y dyfodol, mae'n bosibl y gallai dwy gyfundrefn argraffnodau fod yn gymwys i un darn o ddeunydd etholiadol digidol sy'n hyrwyddo ymgeisydd neu blaid mewn etholiad i'r Senedd, ac i ddarn o ddeunydd gwleidyddol digidol sy'n hyrwyddo ymgeisydd neu blaid yn fwy cyffredinol. Pe na bai'r ymgyrchydd wedi cynnwys argraffnod, mae'n bosibl y byddai'n rhaid i'r Comisiwn a Gwasanaeth Erlyn y Goron ystyried pa drosedd y dylid ymchwilio iddi, a ph'un a allai ymgyrchydd yn y sefyllfa honno fod wedi cyflawni dwy drosedd o dan ddwy gyfundrefn ar wahân.

### **Cofrestru pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau**

Byddai ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol newydd nodi unrhyw asedau neu rwymedigaethau sydd ganddynt sy'n werth dros £500 pan fyddant yn gwneud cais i gofrestru, yn ymdrin â bwlch sydd yn y rheolau cyfredol ar gyfer cyfrifon pleidiau. Dylai roi mwy o dryloywder i bleidleiswyr drwy eu galluogi i weld o'r cychwyn cyntaf faint o gyllid neu ddyled sydd gan blaid newydd.

Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno gwaharddiad ar endidau'n cael eu cofrestru fel pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau ar yr un pryd. Hyd yn hyn, anaml y mae'r sefyllfa hon wedi codi, ond byddai'r cynnig hwn yn lleihau terfyn gwariant effeithiol pleidiau ac ymgyrchwyr eraill sy'n ystyried cynghreiriau a chytundebau etholiadol yn y dyfodol. Er bod achosion wedi bod yn y gorffennol lle mae unigolion wedi bod yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â phlaid ac ymgyrchydd nad yw'n blaid ar yr un pryd, dim ond un enghraifft a gafwyd yn ystod y deng mlynedd diwethaf lle mae'r un endid wedi'i gofrestru fel plaid gwleidyddol ac ymgyrchydd nad yw'n blaid ar yr un pryd cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

## Ystyriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru

- Mae'n debygol y bydd y gwaharddiad arfaethedig ar gofrestru endidau fel pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau ar yr un pryd yn lleihau rhai mathau o weithgarwch ymgyrchu mewn etholiadau yn y dyfodol. Byddai'n lleihau'r swm y gall pleidiau gwleidyddol ddewis ei wario ar gefnogi neu wrthwynebu plaid arall neu ei hymgeiswyr, gan gynnwys mewn etholiadau pan na fydd plaid yn cyflwyno unrhyw ymgeiswyr ei hun. Gallai effeithio ar bleidiau ac ymgyrchwyr eraill a fyddai'n ystyried cynghreiriau a chytundebau etholiadol yn y dyfodol.
- Byddai'r diwygiad i wahardd endidau rhag cael eu cofrestru fel pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau ar yr un pryd yn newid dwy adran o PPERA: mae un wedi'i chadw'n ôl (a22) a'r llall wedi'i datganoli (a88). Pe bai'r Senedd yn penderfynu peidio â chydysnio i'r diwygiad hwn, yna mae'n ymddangos y bydd y gyfraith yn gymwys mewn modd gwahanol i etholiadau Senedd y DU o'u cymharu ag etholiadau'r Senedd. Byddai'n golygu na chaniateir i ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid ddod yn blaid wleidyddol gofrestrdig o dan unrhyw amgylchiadau (a22), ond byddai'r rheolau ar b'un a all plaid gofrestrdig fod yn ymgyrchydd nad yw'n blaid gofrestrdig yn wahanol (a88). Mae'n ymddangos y byddai hynny'n cael ei ganiatáu ar gyfer etholiadau'r Senedd ond nid ar gyfer etholiadau Senedd y DU. Gallai hyn fod yn ddryslyd i bleidleiswyr ac ymgyrchwyr ac mae goblygiadau ynghylch y modd y caiff y gofrestr statudol ei chynnal. (Ceir rhagor o fanylion yn yr adran isod ar "wariant a reolir gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau".)

Mae'n rhaid i ymgyrchydd nad yw'n blaid gyflwyno hysbysiad pan fydd yn bwriadu gwario mwy na'r trothwy cyfreithiol. Wrth dderbyn hysbysiadau fel rhan o'n rôl fel y cofrestrydd statudol, bydd y Comisiwn yn cadarnhau bod yr endid sy'n cyflwyno hysbysiad yn gymwys. Bydd yn bwysig sicrhau bod y gyfraith yn cynnig eglurder a sicrwydd o ran sut i benderfynu os mai "yr un" endid yw plaid wleidyddol ac ymgyrchydd nad yw'n blaid, fel y gall y Comisiwn a'r rhai sy'n gwneud cais i gofrestru ddeall y gofyniad newydd a'i gymhwyso'n gyson.

## Gwariant tybiannol ymgeiswyr ac eraill

Mae rheolau ynglŷn â gwariant tybiannol yn sicrhau bod ymgyrchwyr yn cyfrif yn briodol am nwyddau, gwasanaethau a deunyddiau a roddir iddynt ac a ddefnyddir ganddynt i'w helpu mewn unrhyw ffordd gyda gweithgareddau eu hymgyrch, ac yn rhoi gwybod amdanynt.

Caiff cryn dipyn o wariant tybiannol ei nodi gan ymgeiswyr mewn etholiadau. Mae [data ar wariant o etholiad cyffredinol y DU 2019](#) yn dangos i gyfanswm o £7 miliwn o wariant tybiannol gael ei nodi, bron 40% o gyfanswm y gwariant a nodwyd gan ymgeiswyr.

Mae angen i ymgeiswyr, asiantiaid a staff pleidiau neu ymgyrchwyr sicrhau eu bod yn deall yn glir pryd y bydd rhywbeth yn "wariant tybiannol" neu'n "dreuliau etholiad" gan ei fod yn cyfrif tuag at gyfanswm gwariant eu hymgyrch, na chaniateir iddo fynd dros y terfyn gwariant penodedig. Mae'r gyfraith gyfredol ar wariant tybiannol yn hirsefydledig ac mae wedi gweithredu'n ymarferol ar gyfer etholiadau am flynyddoedd lawer.

Mae Llywodraeth y DU am newid y prawf cyfreithiol ynglŷn â phryd mae ymgeisydd neu asiant yn awdurdodi rhywun arall i ddefnyddio buddion mewn nwyddau neu wasanaethau ar ei ran. Byddai'r Bil yn diwygio'r rheolau fel y byddai ond angen i ymgeiswyr roi gwybod am fuddion mewn nwyddau neu wasanaethau y maent wedi'u "defnyddio" eu hunain neu y maent wedi awdurdodi, cyfarwyddo neu annog rhywun arall i'w "defnyddio" ar eu rhan. Byddai'r Bil hefyd yn galluogi asiant i awdurdodi ymgyrchydd arall i dalu am dreuliau sy'n cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd (ar hyn o bryd, dim ond asiant a all dalu'r treuliau hyn).

Byddai'r newidiadau hyn yn gweithredu ochr yn ochr â rheolau presennol ar gyfer ymgyrchwyr sy'n eu galluogi i wario swm a ganiateir ar hyrwyddo ymgeisydd mewn etholaeth ar wahân i'r asiant (e.e. hyd at £700 yn etholiadau cyffredinol y DU).

### **Ystyriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru**

- Dylid sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r ffordd y dylid trin treuliau neu gefnogaeth i ymgeisydd o dan y gyfraith. Mae angen i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr eraill fod yn glir ynghylch sut y dylid trin unrhyw dreuliau ar gyfer ymgyrchu mewn etholaeth o dan y newidiadau arfaethedig a'r ddeddfwriaeth bresennol.
- Dylai Llywodraethau nodi sut maent wedi profi'r newidiadau arfaethedig gydag ymgyrchwyr yn yr etholiadau y mae ganddynt gyfrifoldeb deddfwriaethol amdanynt, er mwyn helpu i sicrhau bod barn gyffredin ynglŷn â sut y dylid rhoi cyfrif am gefnogaeth i ymgeisydd a sut y dylai'r gefnogaeth honno gael ei hawdurdodi, p'un ai'r asiant sy'n talu am y gefnogaeth honno neu rywun arall. Bydd hyn hefyd yn galluogi'r Comisiwn i roi canllawiau clir i ymgyrchwyr a diweddarau'r Codau Ymarfer statudol ar wariant etholiadol. Os na chaiff y newidiadau a gynigir yn y Bil eu cymhwyso at etholiadau yng Nghymru, efallai y bydd yn rhaid i ymgyrchwyr gynllunio ar gyfer yr un math o weithgarwch a gwariant a chyfrif amdanynt yn wahanol ar gyfer etholiadau gwahanol. Byddem yn sicrhau y byddai unrhyw ganllawiau neu Godau Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn yn galluogi i hyn ddigwydd yn y ffordd orau bosibl.
- Byddai unrhyw wahaniaethau yn y rheolau hefyd yn effeithio ar y modd y gall pleidleiswyr a'r cyfryngau gael gafael ar wybodaeth am y math hwn o wariant. Er mai Swyddogion Canlyniadau sy'n gyfrifol am sicrhau bod ffurflenni gwariant ymgeiswyr ar gael i'r cyhoedd, byddai'r Comisiwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth gryno am wariant ymgeiswyr yn y ffordd fwyaf hygyrch a thryloyw a bydd yn parhau i annog eraill i wneud hynny hefyd.
- Cyfrifoldeb y Senedd yw'r rheolau ar gyfer gwariant mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru. Rydym ar ddeall bod Llywodraeth y Du yn ceisio cydsyniad Llywodraeth Cymru i gymhwyso'r diwygiadau hyn at etholiadau datganoledig yng Nghymru. Os bydd Llywodraeth Cymru am i'r newidiadau hyn fod yn gymwys i etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, yna bydd angen iddi ystyried sut y câi'r newidiadau eu gwneud i ddeddfwriaeth ddatganoledig gyffredol sy'n pennu'r rheolau i ymgeiswyr, a sut y dylid paratoi ar gyfer y newidiadau hyn a'u rhoi ar waith.
- Nodir fersiynau cyfatebol o'r darpariaethau hyn yn A.64 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ar gyfer etholiadau'r Senedd. Bydd Llywodraeth Cymru am ystyried a ddylai sicrhau bod y rhain yn cyfateb i'r

diffiniad ym Mil Llywodraeth y DU ac a yw am wneud hynny. (Er enghraifft, efallai y bydd yn bosibl i Senedd y DU ddiwygio'r rheolau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Cymru yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl ar yr un pryd â diwygio'r rheolau ar gyfer etholiadau sydd o dan gymhwysedd y DU, neu efallai y bydd yn ofynnol neu'n ddymunol bod pob diwygiad o'r fath yn cael ei wneud gan y Senedd.)

## Gwariant a reolir gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn rhan hollbwysig o ddemocratiaeth iach ac maent yn chwarae rôl bwysig o ran rhannu gwybodaeth â phleidleiswyr. Mae'n bwysig y gall y grwpiau hyn gymryd rhan yn etholiadau'r DU yn hawdd. Mae rheolaethau mewn cyfraith etholiadol yn helpu pleidleiswyr i weld a deall sut mae'r grwpiau hyn yn cael arian ac yn ei wario pan fyddant yn bwriadu dylanwadu ar ganlyniad etholiad.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd yn nifer yr ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Mae gwariant gan y grwpiau hyn wedi cynyddu hefyd. Yn etholiad cyffredinol y DU yn 2019, roedd 61 o ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau, a chofnododd y rhai yr oedd yn ofynnol iddynt roi gwybod am eu gwariant gyfanswm gwariant o fwy na £6m. Dangosodd ein [hymchwil ddiweddar i agweddau'r cyhoedd](#) rai pryderon ynghylch y risg o ymyrraeth o dramor. Pan wnaethom ofyn i bobl flaenoriaethu eu pryderon o restr o faterion, dywedodd dwy ran o bump (40%) fod "ymyrraeth o dramor yng nghanlyniadau etholiadau'r DU" yn broblem.

Byddai cyfyngu ar y terfynau ar ymgyrchu heb gofrestru yn ei gwneud hi'n glir nad yw ymyrraeth o dramor yn etholiadau'r DU yn dderbyniol. Yn ystod y cyfnod a reoleiddir cyn etholiad, dim ond categorïau penodol o unigolion a sefydliadau fyddai'n cael gwario mwy na £700 ar weithgareddau y bwriedir iddynt ddylanwadu ar ganlyniad yr etholiad. Byddai hyn yn ostyngiad sylweddol o'r terfynau presennol ar gyfer ymgyrchu heb gofrestru, a byddai'n cyflwyno egwyddor newydd sef bod ymgyrchwyr yn ddarostyngedig i feini prawf cymhwysedd hyd yn oed pan na fydd angen iddynt fod wedi'u cofrestru.

Byddai estyn y rheolau ar wariant ar y cyd fel eu bod yn gymwys i bleidiau gwleidyddol sy'n gwario ar y cyd ag ymgyrchydd nad yw'n blaid, yn cynyddu tryloywder ac yn helpu i sicrhau bod y terfynau gwariant yn effeithiol. Byddai angen nodi'n glir sut y bydd y rheol ychwanegol hon yn ymarferol yn cyd-fynd â rheolau gwariant eraill i bleidiau. Mae'n rhaid i bleidiau allu dweud yn glir pryd mae'r rheol ar wariant ar y cyd yn gymwys, a phryd mae terfynau neu reolaethau eraill yn gymwys, megis y rheolau presennol ar wariant a dargedir neu wariant tybiannol.

## Ystyriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru

- Mae rheolau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn faes polisi datganoledig. Gall Senedd y DU ddiwygio'r rheolau hyn a'r modd y maent yn gymwys i etholiadau Senedd y DU, ond y Senedd sydd â chymhwysedd am y rheolau mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd. Ar hyn o bryd, mae'r rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yr un fath ar gyfer pob math o etholiad i bob pwrpas. Pe bai'r Senedd neu Senedd yr Alban yn penderfynu peidio â chydysnio i'r cynigion yn y Bil Etholiadau neu i

gyflwyno deddfwriaeth ar wahân gyda nodau gwahanol, bydd mathau newydd o wahaniaethau rhwng y rheolau.

- Byddem yn annog y llywodraethau i ystyried gyda ni oblygiadau gwahaniaethau yn y rheolau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn y dyfodol a'r effaith ar gofrestr statudol ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Mae'r cynigion yn codi cwestiynau megis a fyddai'r gofrestr statudol o ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn gweithredu'n well fel pedair cofrestr ar wahân ar gyfer pob etholiad, pa newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol fyddai eu hangen er mwyn cyflawni hyn a pha gyfle deddfwriaethol y gellid ei ddefnyddio pe bai hynny'n ddymunol.
- Mae'n bwysig i hyder y cyhoedd bod tryloywder yn ofynnol a bod terfynau'n cael eu gosod ar wariant ymgyrch sydd â'r nod o ddylanwadu ar ganlyniadau etholiad, gan gynnwys pan gaiff hynny ei wneud gan actorion nad ydynt yn ymgeiswyr nac yn bleidiau gwleidyddol.
- Byddai'r newid yn cynnig mwy o dryloywder ynglŷn â phwy sy'n bwriadu ymgyrchu, ond ni fydd angen adrodd am unrhyw symiau ychwanegol o wariant gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau o gymharu â'r rheolau presennol.
- Mae'r cynigion yn golygu y byddai tair lefel ar wahân o reolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n gymwys i ymgyrchu heb gofrestru, cofrestru ymgyrchwyr, a chofrestru ac adrodd am wariant ymgyrchwyr. Yn ymarferol, bydd y ddwy lefel uchaf yr un fath ar gyfer ymgyrchwyr sy'n targedu pleidleiswyr yng Nghymru am fod y Bil yn cynnig trothwy ar gyfer cofrestriad newydd yn unig o £10,000 sydd yr un fath â'r trothwy presennol ar gyfer cofrestru ac adrodd yng Nghymru. Gallai'r haenau hyn ychwanegu at y canfyddiad o gymhlethdod. Diwygiwyd y rheolau ddiwethaf gan ddeddfwriaeth yn 2014 ac mae ymgyrchwyr wedi nodi bod y newidiadau'n gymhleth a'u bod wedi rhwystro rhai rhag cymryd rhan.
- Dylai unrhyw lywodraeth sy'n ystyried rhoi cyfyngiadau ar wariant o dramor nodi sut mae'n bwriadu gorfodi'r cyfyngiadau ar wariant o dramor. Nid ydym yn gallu cymryd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn sefydliadau nac unigolion y tu allan i'r DU nad ydynt yn dilyn y gyfraith. Mae cyfyngiadau hefyd ar gyrff gorfodi cyfraith trosedd o ran y camau y gallant eu cymryd yn erbyn pobl neu sefydliadau sydd wedi'u lleoli dramor.
- Bydd yn bwysig sicrhau bod y newidiadau arfaethedig i'r rheolau hyn yn gymesur ac nad ydynt yn gwneud i ymgyrchwyr fod yn amharod i gymryd rhan a rhoi gwybodaeth i bleidleiswyr.

## Goruchwyliaeth o'r Comisiwn Etholiadol

Mae atebolrwydd cadarn i seneddau'r DU a phrosesu craffu effeithiol ganddynt yn hanfodol er mwyn i'r Comisiwn Etholiadol sicrhau hyder yn ei waith ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Mae rôl y Senedd, yn ogystal â Senedd y DU a Senedd yr Alban, yn bwysig er mwyn cyflawni hyn. Mae'n rhaid i'r Comisiwn hefyd allu penderfynu ar ei flaenoriaethau a gweithio'n annibynnol ar ddylanwad neu reolaethau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol na ddylai fod unrhyw ymwneud gwirioneddol na chanfyddedig â'n swyddogaethau gweithredol na'n prosesau gwneud penderfyniadau gan y llywodraeth.

Byddai'r Strategaeth a'r Datganiad Polisi arfaethedig yn rhoi cwmphas newydd ac eang i Weinidogion Llywodraeth y DU yn awr ac yn y dyfodol i gysoni gweithgareddau'r Comisiwn ag amcanion strategol Llywodraeth y DU, a llywio'r ffordd y mae'r Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda yn y dyfodol. Mae'r cynigion, fel y maent wedi'u geirio ar hyn o bryd, yn mynd y tu hwnt i atebolrwydd a phrosesau craffu'r Comisiwn a'r penderfyniadau a wneir ganddo drwy alluogi Llywodraeth y DU i gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer y Comisiwn, gan, felly, gyfarwyddo ac arwain y modd y gwneir y penderfyniadau hynny.

### **Ystyriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru**

- Mae bodolaeth rheoleiddiwr annibynnol yn hanfodol er mwyn cynnal hyder yn ein system etholiadol pan gaiff y cyfreithiau sy'n llywodraethu etholiadau eu gwneud gan is-set fach o'r pleidiau sy'n sefyll etholiadau. Mae'n rhaid i'n hannibyniaeth fod yn glir i bleidleiswyr ac ymgyrchwyr ei gweld a'i chadw mewn cyfraith etholiadol, gan fod hyn yn sail i degwch ac ymddiriedaeth yn y system etholiadol.
- Mae'r Bil yn cynnwys gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn dynodi Strategaeth a Datganiad Polisi. Mae gofyniad hefyd i ymgynghori â Phwyllgor y Llefarydd yn Senedd y DU, y mae'r Comisiwn yn atebol iddo. Fodd bynnag, ni fydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r datganiad mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, ac nid oes gofyniad cyfatebol i ymgynghori â Phwyllgor y Llywydd na Chorff Corfforaethol Senedd yr Alban y mae'r Comisiwn hefyd yn atebol iddynt. O ran atebolrwydd ac annibyniaeth y Comisiwn, mae'n bwysig bod cydraddoldeb wrth ymgynghori â'r tair deddfwrfa.
- O dan gynigion y Bil, mae'n ymddangos y bydd y Comisiwn yn gallu gwroddi wrth y datganiad os bydd yn ystyried yn rhesymol bod ystyriaethau eraill yn cyfiawnhau iddo wneud hynny. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn yn ymarferol, yn realistig ac yn rhywbeth a all gael ei gadarnhau yn y Llysoedd, byddai angen drafftio ymhellach yn y Bil. Byddem yn croesawu newidiadau i'r Bil sy'n adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y DU i annibyniaeth y Comisiwn, gan gynnwys ei annibyniaeth i weithredu er budd pleidleiswyr ledled y DU.

## **Troseddau**

### **Dylanwad gormodol**

Mae dylanwad gormodol yn drosedd etholiadol gymhleth nad yw'n hawdd i bleidleiswyr ei deall. Drwy symleiddio'r drosedd hon a'i diffinio'n fwy eglur, byddai hynny'n helpu i ddiogelu pleidleiswyr rhag camfanteisio a byddai'n ei gwneud yn glir beth sy'n ymddygiad derbyniol a beth nad yw'n ymddygiad derbyniol.

Byddai hefyd yn ei gwneud hi'n haws i'r heddlu ac erlynwyr orfodi'r gyfraith pan fo'n briodol. Ceir [cefnogaeth eang i ddiwygio'r drosedd hon](#) ymhlith ymgyrchwyr, gweinyddwyr etholiadau, yr heddlu ac erlynwyr.

Rydym ar ddeall y byddai'r drosedd sydd newydd ei diffinio o ddylanwad gormodol yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ond y byddai unrhyw un a geir yn euog o arfer lwgr yn cael ei atal rhag sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol ac yn etholiadau'r



Senedd. Nodir darpariaeth ar wahân ar gyfer dylanwad gormodol mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd yn Rhan 3, Erthygl 81 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diweddarau'r Gorchymyn cyn etholiad Senedd 2026, bydd cyfle i adolygu'r diffiniad hwnnw o'r drosedd o ddylanwad gormodol.

## **Anghymwysio troseddwr rhag dal swydd etholedig ac ati**

Yn sgil [etholiad cyffredinol y DU yn 2019](#), dywedodd dros hanner yr ymgeiswyr a gymerodd ran yn ein hymchwil ar ôl etholiad eu bod yn pryderu am sefyll etholiad oherwydd y risg o ymddygiad sy'n codi ofn, bygythiadau a difrïo. Dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr eu bod wedi cael profiad o'r math hwn o ymddygiad.

Mae'n hollbwysig bod camau yn cael eu cymryd yn erbyn y rhai sy'n difrïo, yn bygwth neu'n codi ofn ar ymgeiswyr ac ymgyrchwyr. Byddai cynigion yn Rhan 5 o'r Bil yn galluogi'r llysoedd i wahardd rhywun rhag sefyll etholiad am swydd etholedig. Byddai hyn yn gosb bellach, yn ychwanegol at ddedfryd o garchar neu ddirwy er enghraifft, y gallai llys ei gosod pan fyddai'n dyfarnu troseddau o dan y gyfraith etholiadol bresennol. Er y byddai hyn yn cryfhau'r ystod o gosbau a fyddai ar gael yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol am y math hwn o ymddygiad, byddai angen monitro ei effaith ymarferol fel dull atal.

# **Mae darpariaethau'r Bil yn uniongyrchol berthnasol i etholiadau a gedwir yn ôl yn unig**

Mae'r adran hon o'r briff yn sôn am y rhannau o'r Bil Etholiadau y mae Llywodraeth y DU wedi cynnig y dylent fod yn gymwys i etholiadau *a gedwir yn ôl*, sef: etholiadau Senedd y DU, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau maerol yn Lloegr, etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon ac etholiadau llywodraeth leol Gogledd Iwerddon. Os bydd Senedd y DU yn pasio'r Bil, byddai'r newidiadau hyn yn gymwys i Etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a gynhelir yng Nghymru.

## **Prawf adnabod pleidleiswyr**

Mae lefelau isel o dwyll etholiadol profedig yn y DU, a dylai pleidleiswyr deimlo'n hyderus ynglŷn â'u pleidlais. Fodd bynnag, mae ein hymchwil wedi nodi bod y mater hwn yn peri pryder i bleidleiswyr. Dywedodd dwy ran o dair o'r bobl yn ein [hymchwil olrhain barn y cyhoedd ddiweddar](#) y byddai mwy o hyder ganddynt yn niogelwch y system bleidleisio pe bai angen dangos prawf adnabod.

Mae gwiriadau eisoes ar waith i gadarnhau pwy yw pleidleisiwr pan fydd yn cofrestru i bleidleisio ac yn pleidleisio drwy'r post. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wiriadau tebyg ar waith mewn gorsafod pleidleisio ym Mhrydain Fawr er mwyn atal rhywun rhag honni ei fod yn rhywun arall a phleidleisio yn ei enw. Mae hyn yn golygu bod pleidleisio mewn gorsaf

bleidleisio ym Mhrydain Fawr yn agored i dwyll. Yng Ngogledd Iwerddon, bu'n ofynnol dangos prawf adnabod wrth bleidleisio ers 1985, wedi'i ddiweddarau i brawf adnabod â llun arno ers 2003.

Mewn etholiadau lleol yn 2018 a 2019, cafodd y defnydd o brawf adnabod i bleidleiswyr ei dreialu gan Lywodraeth y DU mewn nifer o ardaloedd yn Lloegr. Cynhaliwyd [gwerthusiadau statudol annibynnol](#) gennym yn y ddwy flwyddyn. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, nodwyd tri maes allweddol y bydd angen eu hystyried yn ofalus os caiff gofyniad i bleidleiswyr ddangos prawf adnabod ei gyflwyno:

- Dylai unrhyw ofyniad ar bleidleiswyr i ddangos prawf adnabod gyflwyno gwelliannau clir i'r lefelau diogelwch presennol. Dylai wella hyder y cyhoedd yn y system bleidleisio drwy amddiffyn pleidleiswyr rhag y risg o gambersonadu.
- Dylai unrhyw ofyniad newydd fod yn hygyrch i bob pleidleisiwr. Rhaid ystyried hyn ar gyfer pob pleidleisiwr, yn enwedig y rhai sy'n llai tebygol o feddu ar brawf adnabod derbyniol â llun arno eisoes. Mae'n rhaid sicrhau nad yw cyflwyno gofyniad i ddangos prawf adnabod yn atal y bobl hyn rhag pleidleisio.
- Dylai'r broses o gyflwyno unrhyw ofyniad i ddangos prawf adnabod fod yn un y gall gweinyddwyr etholiadau lleol ei chyflawni'n realistig, gyda therfynau amser ymarferol a chyllid digonol.

Mae'r Bil yn nodi cynigion ar gyfer gofyniad i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ddangos prawf adnabod â llun arno yn etholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr, ac etholiadau lleol yn Lloegr. O blith y dulliau gweithredu a brofwyd yn y cynlluniau peilot, y dull hwn gynigiodd y gwelliant gorau mewn diogelwch.

Er mwyn sicrhau bod pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch o hyd, rhaid cydbwysu'r mesur diogelwch hwn ag opsiynau eraill ar gyfer pobl nad oes ganddynt brawf adnabod derbyniol â llun arno eisoes. Mae'r Bil yn nodi'n glir bod yn rhaid i Gerdyn arfaethedig i Bleidleiswyr gael ei ddarparu am ddim.

Yn ein hymchwil olrhain barn y cyhoedd ddiweddar, dywedodd 4% o'r bobl a oedd yn gymwys i bleidleisio nad oes ganddynt unrhyw un o'r dogfennau adnabod a fyddai'n ofynnol o dan y cynigion hyn ar hyn o bryd. Roedd y ffigur hwn yn uwch ymhlith rhai grwpiau mwy difreintiedig, gan gynnwys pobl ddi-waith, pobl sy'n rhentu eiddo gan awdurdod lleol neu gymdeithas dai, a phobl ag anableddau. Bydd y broses ar gyfer gwneud cais am Gerdyn arfaethedig i Bleidleiswyr a'u dosbarthu yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gofyniad i ddangos prawf adnabod yn hygyrch, yn enwedig i'r bobl hynny nad oes ganddynt y prawf adnabod gofynnol.

Bydd sicrhau na chodir tâl am Gerdyn Pleidleiswyr yn bwysig, ond caiff manylion pellach pwysig am y broses ymgeisio eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Dylai Llywodraeth y DU nodi yn ystod hynt y Bil sut y bydd yn gwneud yn siŵr bod gwneud cais am y Cerdyn Pleidleiswyr newydd yn hawdd i'r bobl sydd ei angen.

Bydd yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol weinyddu ceisiadau am gerdyn pleidleisiwr. Bydd angen i Lywodraeth y DU ystyried sut i ariannu'r cyfrifoldeb ychwanegol hwn.

## Ystyriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru

- Os caiff y cynigion yn y Bil eu pasio yna bydd yn ofynnol i bleidleiswyr ddangos prawf adnabod ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, ond nid ar gyfer etholiadau'r Senedd nac etholiadau llywodraeth leol. Mae'n bosibl y bydd hyn yn peri dryswch i bleidleiswyr, yn enwedig os bydd etholiadau'r DU ac etholiadau Cymru (yn cynnwys is-etholiadau) yn cael eu cynnal yn agos at ei gilydd, neu hyd yn oed ar yr un diwrnod. Wrth gynnal ei weithgareddau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, byddai'r Comisiwn yn ceisio lleihau'r risg o ddryswch i bleidleiswyr.

## Pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy'r post yn ddull pleidleisio defnyddiol a phoblogaidd. Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn opsiwn pwysig i bobl na allant bleidleisio yn bersonol hefyd. Gwnaeth ychydig llai na 250,000 o bobl benodi dirprwy yn etholiad cyffredinol y DU yn 2019.

Mae'r Bil yn cynnig gwahardd ymgyrchwyr rhag ymdrin â phleidleisiau post, a fyddai'n ffurfioli'r dull gweithredu presennol a anogir gan [God Ymddygiad gwirfoddol i Ymgyrchwyr](#). Mae'r Bil hefyd yn cynnig estyn rheolau cyfrinachedd pleidleisiau i gynnwys pleidleisiau post. Dylai'r newidiadau hyn wella ymddiriedaeth a hyder yn y system heb leihau mynediad i bleidleisio. Mae ein [hymchwil barn y cyhoedd ddiweddar](#) wedi dangos, er bod 90% o bobl yn dweud eu bod yn teimlo bod pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio yn ddiogel, fod hyn yn cymharu â 68% o bobl sy'n credu bod pleidleisio drwy'r post yn ddiogel ac 11% a nododd nad ydynt yn gwybod.

Byddai'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r pleidleiswyr hynny sydd wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiadau Senedd y DU wneud cais newydd am bleidlais drwy'r post ar ôl tair blynedd, yn lle'r sefyllfa bresennol lle mae'n ofynnol iddynt ailgyflwyno eu dynodwyr personol ar ôl pum mlynedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod llofnodion pleidleiswyr post yn gyfredol ac yn gywir, a dylai leihau'r risg y caiff pleidleisiau post eu gwrthod am nad yw'r dynodwyr hyn yn cyfateb pan fydd pleidleiswyr yn dychwelyd pecynnau pleidleisio drwy'r post. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol o hyd i'r pleidleiswyr hynny sydd wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru ailgyflwyno eu dynodwyr ar ôl pum mlynedd oni fydd Llywodraeth Cymru yn dewis deddfu i gysoni'r prosesau.

Mae llawer o bleidleiswyr drwy'r post wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post yn etholiadau'r DU ac etholiadau datganoledig yng Nghymru. Felly, os na chaiff y rheolau eu cysoni, mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at ddryswch ymysg pleidleiswyr ynghylch pryd y gwnaethant gais newydd ac i ba etholiad. Heb system gyson, bydd baich ychwanegol hefyd ar weinyddwyr etholiadol, gan y bydd angen iddynt brosesu ceisiadau am bleidlais bost ar adegau gwahanol i'r un pleidleiswyr, yn dibynnu ar y math o etholiad.

Nid yw'n glir sut y byddai cyfyngiadau newydd ar fynd â phleidleisiau post i orsafoedd pleidleisio, ac ar nifer y pleidleiswyr y gall unigolyn fod yn ddirprwy ar eu cyfer, yn cynnig diogelwch ychwanegol arwyddocaol i bleidleiswyr. Byddai ymgyrchwyr sy'n cyflwyno pleidleisiau post yn cyflawni trosedd o dan y gwaharddiad arfaethedig ar ymdrin â pheccynnau pleidleisio drwy'r post, a byddai trosedd ddiwygiedig dylanwad gormodol hefyd

yn gymwys pe bai pleidleiswyr yn cael eu gorfodi yn groes i'w hewyllys i roi eu pleidleisiau post i rywun arall neu benodi rhywun yn ddirprwy.

### **Ystyriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru**

- Pe bai cyfundrefnau gwahanol ar gyfer pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy yn cael eu defnyddio yng Nghymru, byddai angen cymorth clir i bleidleiswyr ddeall y rheolau ac osgoi'r posibilrwydd o ddryswch ymysg pleidleiswyr. Byddai'n bwysig sicrhau na fyddai gwahaniaethau yn y rheolau rhwng etholiadau sy'n dod o dan gylchoedd gwaith y gwahanol lywodraethau yn rhwystro pobl rhag cymryd rhan.
- Pe bai'n ofynnol i bleidleiswyr post wneud cais newydd bob tair blynedd i bleidleisio drwy'r post yn etholiad Senedd y DU ac i ailgyflwyno eu dynodwyr bob pum mlynedd i bleidleisio drwy'r post yn eu hetholiad datganoledig, gallai hyn gynyddu'r baich ar bleidleiswyr i barhau i fod wedi cofrestru i bleidleisio yn eu hoff ffordd a chynyddu'r risg y byddant yn methu â sicrhau pleidlais bost ar gyfer set benodol o etholiadau. Byddai hefyd yn creu baich ychwanegol ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru i gynnal y ddwy amserlen. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cysoni'r rheolau ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru â'r cynigion ym Mil Llywodraeth y DU.
- Gallai newidiadau i gyfyngu ar bwy sy'n gallu mynd â phleidleisiau post i orsaf bleidleisio, a faint ohonynt y gellir mynd â nhw, greu rhwystrau i rai pleidleiswyr y mae gwir angen cymorth arnynt. Byddent hefyd yn ychwanegu gweithdrefnau newydd cymhleth i staff gorsafoedd pleidleisio.
- Byddai cynnig y Bil i gofnodi pwy sydd wedi cyflwyno eu pleidleisiau post yn gwella diogelwch heb beryglu'r hygyrchedd drwy osod cyfyngiadau newydd ar y gallu i'w cyflwyno.
- Gallai cyfyngu ar nifer y pleidleiswyr y gellir gweithredu fel dirprwy ar eu rhan roi rhai pobl dan anfantais os oes angen rhywun i bleidleisio ar eu rhan, gan gynnwys pleidleiswyr anabl.

## **Cymorth i bleidleisio ar gyfer pobl anabl**

Byddai'r newidiadau hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd i bleidleiswyr anabl o ran sut y cânt eu cynorthwyo mewn gorsafoedd pleidleisio. Drwy ddarparu amrywiaeth ehangach o gyfarpar mewn gorsafoedd pleidleisio, dylai fod yn haws i bleidleiswyr anabl gael cymorth priodol i allu bwrw eu pleidlais ar eu pen eu hunain ac yn gyfrinachol.

Byddai disodli'r gofynion penodol cyfredol a nodir mewn cyfraith â dyletswydd ehangach i weinyddwyr etholiadau ddarparu cyfarpar rhesymol yn galluogi pleidleiswyr anabl i ddefnyddio cyfarpar neu dechnoleg newydd i'w helpu. Gallai hyn gefnogi arloesedd a chyflymu'r broses o ddarparu gwahanol fathau o gymorth pan nodir ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion pleidleiswyr.

[Mae pleidleiswyr anabl hefyd wedi nodi](#) y gall fod yn anodd dod o hyd i rywun sy'n gymwys i'w helpu i fwrw eu pleidlais yn eu gorsaf bleidleisio. Byddai dileu cyfyngiadau ar bwy all fod

yn gydymaith yn rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis i bleidleiswyr anabl o ran sut y cânt eu cefnogi.

Byddai'r Bil yn rhoi cyfrifoldebau ehangach ar weinyddwyr etholiadau i nodi pa gyfarpar fyddai'n rhesymol i gynnig cymorth i bleidleiswyr anabl yn etholiadau Senedd y DU. Bydd yn bwysig bod Llywodraeth y DU yn sicrhau cyllid priodol i weinyddwyr lleol er mwyn gwneud yn siŵr bod y cymorth hwn yn cael yr effaith briodol i bleidleiswyr anabl.

Bydd ein canllawiau yn helpu gweinyddwyr etholiadau i ystyried y ffordd orau o nodi a darparu'r math cywir o gymorth i bleidleiswyr anabl o dan y cyfrifoldeb newydd hwn, gan sicrhau y gall pleidleiswyr gael gwasanaeth cyson lle bynnag y maent yn byw.

### **Ystyriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru**

- Ni ddylai fod unrhyw rwystrau sy'n atal pleidleiswyr anabl rhag cymryd rhan mewn etholiadau ac mae'n briodol bod llywodraethau yn ystyried sut y gellir gwella hygyrchedd. Fodd bynnag, er mwyn cynnal hyder pleidleiswyr anabl i gymryd rhan mewn etholiadau, bydd yn bwysig sicrhau bod y cymorth y gallant ddisgwyl ei gael drwy'r broses gofrestru a'r broses bleidleisio ym mhob etholiad yn cael ei gyfleu'n glir a bod risgiau o wahaniaethau rhwng gwahanol etholiadau yn cael eu hystyried yn ofalus.

## **Pleidleiswyr tramor yn etholiadau Senedd y DU**

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig y dylid cael gwared ar y terfyn o 15 mlynedd ar hawliau pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU i ddinasyddion y DU sy'n byw dramor.

Byddai hyn yn golygu y byddai gan unrhyw ddinesydd Prydeinig sy'n byw dramor sydd wedi byw yn y DU, neu sydd wedi'i gofrestru i bleidleisio yn y DU yn flaenorol yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU.

Mae penderfyniadau ynghylch yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol, ynghyd ag unrhyw refferendwm mae'r Senedd yn deddfu yn ei gylch, wedi'u datganoli. Fodd bynnag, gall unrhyw un sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn y DU roi rhoddion i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr.

## **Hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth lleol Dinasyddion yr UE**

Mae'r Bil yn cyflwyno darpariaethau i gyfyngu ar y meini prawf ar gyfer dinasyddion yr UE sydd am sefyll neu bleidleisio mewn etholiadau lleol o bosibl, i gynnwys y rhai hynny a gwmpesir gan un o ddau grŵp gwarchoddedig; naill ai eu bod yn preswyllo yma cyn 31 Rhagfyr 2020 neu eu bod wedi'u cwmpasu gan gytuniad (h.y. cytundeb dwyochrog).

Mae etholiadau lleol yng Nghymru a'r Alban wedi'u datganoli i'r Senedd ac i Senedd yr Alban, ac nid yw'r diwygiadau yn gymwys i etholiadau lleol yng Nghymru na'r Alban. Felly, ni chaiff unrhyw Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ei geisio gyda Llywodraeth Cymru na Llywodraeth yr Alban.

Fodd bynnag, fel yr amlinellodd Llywodraeth Cymru yn ei [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#), byddai'r diwygiadau a awgrymir yn y Bil yn newid y darpariaethau presennol yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn y fath fodd ag y byddai'r darpariaethau hynny sy'n gymwys i'r etholfraint ddatganoledig yn cael eu diddymu, gan newid y rhai hynny sydd â hawl i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ac yn etholiadau'r Senedd.

Nodwn fod Llywodraeth y DU bellach wedi cyflwyno [diwygiadau](#) ar gyfer y Cam Pwyllgor ar 22 Medi i unioni hyn ac i egluro nad yw newidiadau sy'n effeithio ar hawliau dinasyddion y DU i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn effeithio ar y sefyllfa mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Senedd yng Nghymru.